# Y PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG - DYDD MERCHER 11 RHAGFYR 2002

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDATBLYGU GWLEDIG

### Talu cymorthdaliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

1. Yn dilyn fy adroddiad diwethaf ynghylch y taliadau a wneir o dan y Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid (SAPS), ar 5 Rhagfyr 2002 roedd 11,300 (91%) o'r taliadau wedi'u prosesu. Mae'r taliadau hyn yn werth £62 miliwn.

2. Gan edrych ar daliadau eraill sydd yn yr arfaeth, rydym yn disgwyl dechrau prosesu taliadau ALFf y SAPS yr wythnos hon (yr wythnos sy'n dechrau 9 Rhagfyr), ynghyd â blaendaliadau'r Cynllun Premiwm Arbennig Eidion.

3. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n dilysu'r hawliadau tir âr, ac rydym yn disgwyl y bydd y taliadau hyn yn cael eu gwneud yn gynnar yn y flwyddyn newydd, fel y nodwyd eisoes.

4. Gallaf sicrhau'r Pwyllgor y bydd fy swyddogion yn parhau i wneud popeth o fewn eu gallu yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn prosesu'r taliadau hyn cyn gynted â phosibl.

### Corff newydd arfaethedig ar gyfer cig coch

5. Mae ein partneriaid yn parhau i gyfarfod er mwyn gweithio'n galed i sefydlu corff newydd a all fabwysiadu'r hyn sy'n weddill o fusnes Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru (WLBP). Rydym yn hyderus ein bod bellach wedi datrys dau o'r tri mater y mae WLPB wedi'u codi, sef sicrhau bod gan y cynhyrchwyr reolaeth, a sicrhau cyllid priodol. Mae'r trydydd mater, sy'n ymwneud â dyfodol WLBP, yn parhau i fod yn destun trafodaeth.

6. Mae gwaith da yn cael ei gyflawni er mwyn gallu cofrestru'r cwmni yn gynnar ym mis Ionawr. Mae swydd y Cadeirydd wedi'i hysbysebu, a gofynnwyd i'r partneriaid gyflwyno eu henwebiadau i'r Bwrdd cysgodol. Bydd WLBP yn ymgynghori â'u haelodau. Os ydynt yn cytuno i uno â'r corff newydd, bydd WLBP yn dweud wrthym pwy yw eu henwebiad hwythau.

### Symud da byw - cyfarfod â budd-ddeiliaid o Gymru

7. Ar Ragfyr 4, cyfarfyddais â grwp eang o fudd-ddeiliaid o Gymru er mwyn trafod y trefniadau ar gyfer symud anifeiliaid yn y dyfodol. Yn y cyfarfod, roedd aelodau o undebau'r ffermwyr, cludwyr,

arwerthwyr, a chynrychiolwyr y milfeddygon a'r awdurdodau lleol. Trafodwyd pa elfennau allweddol y byddai'n rhaid eu cynnwys mewn unrhyw drefniadau parhaol ar gyfer symud da byw. Roedd y drafodaeth yn un adeiladol a defnyddiol. Calon y drafodaeth oedd y rheol 20-diwrnod a'r angen i unrhyw drefniant yn y dyfodol fod yn ymarferol ac effeithiol, gan osgoi dyblygu gwaith a chan gydymffurfio â chodau ymarfer bioddiogelwch.

8. Rwy'n disgwyl cwrdd â'r budd-ddeiliaid unwaith eto cyn y Nadolig. Yno, byddaf yn adrodd ar fy ymweliad diweddar â'r Alban, lle gwelais â'm llygaid fy hun elfennau'r model Albanaidd presennol. Yn yr Alban, trafodais gyda'r Gweinidog a'r swyddogion cyfatebol yno sut yr oedd y model yn gweithio.

**Incwm ffermydd yn ystod 2001**

9. Disgwylir i Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ryddhau gwybodaeth ar ddata incwm ffermydd Cymru yn ystod 2001 yn gynnar wythnos nesaf (hynny yw, yr wythnos sy'n dechrau 9 Rhagfyr). Byddaf yn trefnu y caiff y datganiad perthnasol i'r wasg ei anfon at aelodau'r Pwyllgor.

**Cig o'r stoc ymyrraeth**

10. Yn ystod y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd imi ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch y ddeddfwriaeth Ewropeaidd newydd sy'n gysylltiedig â chig israddol sy'n cynnwys Deunydd Risg Penodol (*Specified Risk Material - SRM*). Gofynnwyd imi hefyd gynnwys gwybodaeth ynghylch y graddau y gellir defnyddio polisïau caffael cyhoeddus i atal cig wedi'i heintio o stociau ymyrraeth rhag mynd i'r gadwyn fwyd.

11. Fel yr amlinellwyd yn fy adroddiad i'r Pwyllgor ar 13 Tachwedd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi gwneud Rheoliad (1967/2002). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn orfodol i bob Aelod-wladwriaeth gymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod unrhyw gig o'r stoc ymyrraeth sy'n cynnwys asgwrn yn cydymffurfio â'r rheolau SRM. Er gwaethaf cais yr Asiantaeth Safonau Bwyd i'r Comisiwn, ni thrafodwyd SRM mewn cig eidion o'r stoc ymyrraeth yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Rheoli Cig Eidion. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn pwyso ar y Pwyllgor Rheoli Cig Eidion i ystyried y mater yn ystod ei gyfarfod nesaf ar 13 Rhagfyr, a bydd yn rhoi gwybod am ganlyniad hynny cyn gynted â phosibl.

12. Ar fater polisïau caffael, mae'n bwysig cydnabod bod cymalau i sicrhau bod cynnyrch yn ddiogel ac o fewn y gyfraith eisoes yn gyffredin mewn contractau caffael. Yn wir, mewn sawl achos (yn fwyaf amlwg yn y gwasanaeth iechyd), cymerir camau pellach i sicrhau y gellir olrhain unrhyw gig a ddarperir i'r gwasanaeth yn llawn. Mae Arolygwyr Hylendid Cig hefyd yn ymweld â chyflenwyr y gwasanaeth yn rheolaidd.

**Y Mesur Hela**

13. Yn dilyn ymgynghoriad estynedig, mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn DEFRA, Alun

Michael AS, wedi cyflwyno Mesur Hela yn Nh'r Cyffredin. Mae'r Mesur yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Diben y Mesur yw darparu ar gyfer hela mamaliaid gwyllt, gwahardd cwrso sgwarnogod a hela ceirw, a chreu system drwyddedu ar gyfer hela mamaliaid gwyllt eraill mewn sefyllfaoedd penodol.

14. Lluniwyd y ddeddfwriaeth er mwyn cydnabod defnyddioldeb hela ac atal creulondeb. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer system gofrestru. Er mwyn cofrestru, bydd yn rhaid i gais basio'r profion defnyddioldeb a chreulondeb. Bydd darpariaeth ar gyfer Tribiwnlys apelio.

15. Ni fydd hela llygod mawr na hela cwningod yn cael eu gwahardd. Bydd pysgota, saethu a heboga yn cael eu heithrio.

16. Rydym yn ystyried ceisio datganoli'r pwerau rheoleiddio i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Coedwigaeth**

17. Ar 17 Rhagfyr, byddaf yn ymweld â Chanolfan Gwerthu Coed Nadolig y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghoed Gwent yn Sir Fynwy. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gwerthu tua 100,000 o goed y flwyddyn. Maent hefyd yn defnyddio'r Nadolig fel cyfle i addysgu. Byddaf yn mynd i'r goedwig gyda grp o blant ysgol i weld coeden yn cael ei thorri, ac i glywed sgwrs am blannu a medi coed Nadolig.